

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd) Canolfan Atgenhedlu a Gynaecoleg Cymru, Llantrisant

Dyddiad yr arolygiad: 13 Awst 2024

Dyddiad cyhoeddi: 25 Tachwedd 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym.....	10
• Ansawdd Profiad y Claf	10
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol.....	15
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	20
4. Y camau nesaf	23
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	24
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	25
Atodiad C - Cynllun gwella.....	26

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd yng Nghanolfan Atgenhedlu a Gynaecoleg Cymru yn Llantrisant ar 13 Awst 2024. Mae'r Ganolfan bellach yn masnachu fel Care Fertility Cardiff.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o uwch-arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygwr cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o saith holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol sy'n rheoleiddio clinigau ffrwythlondeb a phrosiectau sy'n ymwneud ag ymchwil gydag embryonau dynol ledled y DU. Mae gwaith yr Awdurdod yn wahanol i waith AGIC ac mae'n ymwneud â thrwyddedu, arolygiadau a gosod safonau. Ceir gwybodaeth am [yr hyn y mae'r Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol yn ei wneud, gan gynnwys y ffordd y mae'n rheoleiddio a sut i gael gafeael ar ei adroddiadau arolygu](#) ar [wefan yr Awdurdod](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Rhoddodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC sylwadau cadarnhaol ynghylch eu profiadau o ddefnyddio'r gwasanaethau a ddarperir yn y clinig. Er bod y wybodaeth i gleifion a oedd i'w gweld yn y lleoliad yn gyfyngedig, roedd ystod eang o wybodaeth addas yn cael ei darparu i'r cleifion ar y wefan ac ar ffurf taflenni, er mwyn eu cefnogi drwy'r broses drin.

Nodwyd gennym fod trefniadau addas ar waith i sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion. Dangosodd y staff ystyriaeth addas mewn perthynas â chynnal hawliau'r cleifion a gwnaethant ddangos dealltwriaeth o bwysigrwydd cael cydsyniad y cleifion cyn iddynt gael triniaeth.

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol yn unol â'u hanghenion unigol a chlinigol. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld ar amser yr apwyntiad a neilltuwyd iddynt er mwyn sicrhau eu bod yn cael gofal amserol.

Roedd prosesau addas ar waith yn y lleoliad i'r cleifion roi adborth am eu profiadau o ddefnyddio'r gwasanaeth cyn ac ar ôl cael triniaeth. Fodd bynnag, gwnaethom nodi y gellid gwneud mwy i roi gwybod i'r cleifion am y camau a gymerwyd gan y gwasanaeth o ganlyniad i'w hadborth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol: |]

- Dylai'r gwasanaeth wella'r broses mewn perthynas ag adborth cleifion drwy gyflwyno system ar gyfer rhoi gwybod i'r cleifion yn rheolaidd am y camau a gymerwyd o ganlyniad i'r adborth a roddwyd.
- Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod yr holl wybodaeth i gleifion ar gael yn hawdd ac yn cael ei darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn. Dylai cleifion gael cynnig y cyfle i siarad yn eu dewis iaith lle bynnag y bo modd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff
- Roedd y cleifion yn cael cymorth i ddeall eu gofal a'u triniaeth yn ystod eu hymgyngoriadau cychwynnol â'r staff a thrwy gydol y broses drin
- Roedd systemau da ar waith er mwyn cael cydsyniad y cleifion

- Roedd y gwasanaeth yn defnyddio technoleg ddigidol yn effeithiol fel adnodd i'w helpu i gyfathrebu â'r cleifion a rhoi gofal amserol iddynt.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd trefniadau addas ar waith yn y gwasanaeth i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd y trefniadau hyn wedi'u hategu gan amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol a pherthnasol.

Roedd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn gynhwysfawr, yn drefnus iawn ac wedi'u storio'n ddiogel. Gwelsom fod y cofnodion clinigol yn gyfredol ac yn cael eu cadw i safon dda, gan adlewyrchu anghenion a risgiau'r cleifion. Roedd gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n briodol mewn system cofnodion electronig. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi achosion lle roedd sganiau uwchsain cleifion yn cael eu hargraffu â llaw ac yna eu sganio er mwyn eu hychwanegu at eu cofnod iechyd electronig, yn hytrach na'u lanlwytho'n uniongyrchol. O ganlyniad i hyn, roedd risg bosibl y gallai sganiau'r cleifion gael eu hatodi'n anghywir neu gael eu priodoli i'r claf anghywir yn y system.

Ar y cyfan, roedd systemau rheoli meddyginiaethau cadarn ar waith yn y clinig. Dangosodd y cofnodion meddyginiaeth y gwnaethom edrych arnynt fod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi'n briodol yn unol ag anghenion y cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod y gwaith o fonitro'r oergell gyffuriau a gwirio'r troli adfywio yn cael ei gwblhau'n gyson gan y staff.

Roedd y clinig yn lân ac yn daclus a nodwyd bod amserlenni glanhau addas ar waith. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod rhai rhannau o'r clinig yn atal trefniadau atal a rheoli heintiau effeithiol, neu nad oeddent yn eu cefnogi, a'u bod felly'n peri risg bosibl i ddiogelwch y staff a'r cleifion. Roedd rhai enghreifftiau yn cynnwys craciau mewn teils llawr, dodrefn wedi'u difrodi a biniau gwaredu gwastraff anaddas. Nodwyd gennym fod rhai o'r materion hyn wedi cael eu nodi mewn archwiliadau atal a rheoli heintiau blaenorol ond roeddent i'w gweld yn ystod ein harolygiad o hyd. Ni allai'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad ddarparu tystiolaeth ddogfennol o drafodaethau na chymau lliniaru a gymerwyd mewn perthynas â'r materion hyn a nodwyd yn flaenorol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod sganiau uwchsain cleifion yn cael eu lanlwytho'n uniongyrchol i'w cofnodion er mwyn atal y risg o wallau wrth gadw cofnodion ac i gefnogi diogelwch y cleifion

- Rhaid i'r gwasanaeth gynnal archwiliad amgylcheddol llawn o'r clinig er mwyn nodi, cofnodi ac ymdrin ag unrhyw risgiau ychwanegol o ran yr amgylchedd ac atal a rheoli heintiau
- Rhaid i'r gwasanaeth roi trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i sicrhau yr ymdrinnir yn effeithiol â risgiau a nodir a materion parhaus a'u bod yn cael eu monitro er mwyn cefnogi diogelwch y staff a'r cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y clinig yn diogelu oedolion a phlant.
- Gwelsom dystiolaeth gref o gydweithredu amlddisgyblaethol rhwng y staff nyrsio, meddygol a'r labordy er mwyn cefnogi gofal cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod strwythur rheoli addas ar waith a oedd yn dangos llinellau adrodd ac atebolrwydd clir. Roedd y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol yn gweithio yn y clinig ac ar gael i gefnogi'r staff ac i fonitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Dywedodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau.

Roedd y lefelau staffio yn briodol er mwyn cefnogi diogelwch y cleifion yn ystod yr arolygiad a chawsom wybod nad oedd unrhyw swyddi gwag ar gyfer staff nyrsio yn y clinig. Cawsom wybod am gyfarfodydd rheolaidd i gasglu adborth y staff a gweithredu ynghylch unrhyw faterion a godwyd. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad o'i berfformiad yn ystod y 12 mis diwethaf.

Gwnaethom arsylwi ar brosesau priodol ar gyfer cofnodi digwyddiadau a chwynion ac ymchwilio iddynt er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi camau i wella ansawdd. Gwnaethom nodi bod gweithgareddau archwilio a chyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal i drafod digwyddiadau, cwynion a materion sy'n ymwneud â gofal cleifion.

Pan gynhaliwyd ein harolygiad, roedd y gwasanaeth yn mynd drwy gyfnod o drawsnewid gan ei fod yn symud i berchnogaeth Care Fertility Group Limited (CARE). Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael problemau technegol parhaus wrth geisio cael mynediad at system cofnodion electronig CARE a'i defnyddio. Ni allai'r staff ddarparu rhai o'r dogfennau gofynnol yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys data cyffredinol ar gydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol. Cawsom y ddogfennaeth a oedd yn weddill ar ôl yr arolygiad a, bryd hynny, gwelsom fod lefelau cydymffurfiaeth y staff â chysiau hyfforddiant gorfodol yn

dda ar y cyfan. Fodd bynnag, gwnaethom fynegi ein pryderon i'r staff a dweud bod y problemau technegol parhaus yn peri risgiau posibl o ran sicrhau bod prosesau'r clinig a pherfformiad y staff yn cael eu llywodraethu a'u goruchwyllo'n gadarn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol: []

- Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod problemau technegol system CARE yn cael eu datrys yn llawn a bod y staff yn gallu cael mynediad i'r system a'i defnyddio
- Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod dogfennaeth a gwybodaeth berthnasol sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau ar gael yn hawdd i'r staff
- Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y gellir cael gafael ar ddata cywir ar gydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant a'u hadolygu er mwyn cefnogi prosesau parhaus i fonitro a goruchwyllo trefniadau llywodraethu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth yn adolygu hyfforddiant a chymwysterau aelodau presennol o'r staff yn rheolaidd gyda'r nod o ddatblygu ac uwchsgilio'r staff.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cyhoeddodd AGIC arolygon ar-lein a holiaduron papur er mwyn casglu barn y cleifion am y gwasanaeth a ddarperir gan y clinig fel rhan o'r arolygiad. Cafwyd cyfanswm o wyth ymateb papur. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, a oedd yn golygu nad oedd wyth ymateb i bob cwestiwn.

Roedd yr ymatebion i'r holiadur a'r sylwadau a gafwyd yn dangos bod cleifion yn cael profiad cadarnhaol yn y lleoliad hwn. Yn yr holiadur, gofynnwyd i'r cleifion roi barn ar eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth roeddent wedi'i gael. Nododd saith o'r wyth claf fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' a nododd un claf ei fod yn 'dda'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae cael gafael ar y gwasanaeth hwn wedi bod yn gam mawr ac rwy'n teimlo fy mod wedi cael fy nghefnogi drwy'r broses gyfan. Diolch yn fawr."

"Mae pawb mor hyfryd a chyfeillgar ac rwyf bob amser yn teimlo'n gyfforddus bob tro y byddaf yn dod yma."

"Mae'r nyrsys yn wych."

Diogelu a gwella iechyd

Ychydig o wybodaeth am ddiogelu iechyd oedd i'w gweld yn y lleoliad, ond gwnaethom nodi bod digon o wybodaeth yn cael ei harddangos a'i darparu i'r cleifion drwy wefan gynhwysfawr y gwasanaeth a'r taflenni gwybodaeth i gleifion.

Dywedwyd wrthym y gellid cwblhau ymgynoriadau cychwynnol ar-lein pe bai angen. Gwahoddwyd y cleifion i ymgymryd ag ystod o brofion cyn eu hapwyntiad, gan gynnwys sgan uwchsain, prawf gwaed a dadansoddiad o semen. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y staff wedi gwirio eu hanes meddygol cyn iddynt gael triniaeth.

Urddas a pharch

Nodwyd gennym fod trefniadau da ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus drwy gydol eu proses drin. Roedd sgrin wydr o flaen desg y dderbynfa fel na ellid clywed sgysiau ffôn preifat yn hawdd. Roedd yr ystafelloedd ymgynghori, trin ac adfer yn cynnig lefel briodol o breifatrwydd i'r cleifion. Roedd y drysau yn cael eu cadw ar gau yn ystod ymgynoriadau. Roedd llenni'n cael eu

defnyddio i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion yn ystod ymgynghoriadau hefyd, neu pan oeddent yn cael triniaeth. Gwelsom arwyddion a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion bod ganddynt yr hawl i gael hebryngwr yn ystod y broses drin, a oedd yn cefnogi eu cysur, eu hurddas a'u diogelwch.

Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gwrtais ac yn eu trin â charedigrwydd drwy gydol ein harolygiad. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a bod camau wedi'u cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd. Roedd pob un ohonynt hefyd yn cytuno bod y staff wedi gwrando arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau.

Gwybodaeth i gleifion a chydysniad cleifion

Roedd datganiad o ddiben y darparwr cofrestredig yn amlinellu nodau ac amcanion y clinig ac roedd yn cael ei arddangos yn y dderbynfa er gwybodaeth i'r cleifion. Roedd y datganiad o ddiben yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigir a'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod pob claf a rhoddwr wedi darparu cydsyniad perthnasol cyn cael triniaeth.

Dangosydd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad ddealltwriaeth briodol o bwysigrwydd rhoi digon o wybodaeth i ddarpar gleifion a chleifion presennol er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth ddefnyddiol i gleifion ar gael ar wefan y gwasanaeth. Rhoddwyd pecyn gwybodaeth cynhwysfawr i'r cleifion ar gyfer eu hymgynghoriad cyntaf a thafleddi ategol i'w cefnogi drwy gydol eu triniaeth. Yna roedd gofyn iddynt gwblhau sawl modiwl addysgol mewn perthynas â'u llwybr trin cyn cydsynio i driniaeth. Dywedodd y staff mai dim ond pan oeddent yn sicr bod y cleifion yn deall y broses drin yn llawn a'u bod wedi darparu cydsyniad ar sail gwybodaeth y gallai'r cleifion gael triniaeth.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr ystod o opsiynau triniaeth a oedd ar gael a risgiau a manteision yr opsiynau hyn. Cawsom ein sicrhau bod y staff yn deall eu cyfrifoldebau o ran cael cydsyniad cleifion cyn triniaeth. Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno eu bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth yn y clinig.

Gwelsom fod costau triniaeth ffrwythlondeb wedi'u hamlinellu'n glir i'r cleifion ar y wefan ac yn y taflenni gwybodaeth a ddarparwyd. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y costau wedi cael eu cyfleu'n glir iddynt cyn iddynt gael triniaeth. Fodd bynnag, nododd un claf a gwblhaodd ein holiadur:

“Fy unig sylw yw na chawsom wybod ymlaen llaw pan gafodd y prisiau eu newid”.

Efallai yr hoffai'r gwasanaeth fyfyrion ar yr agwedd hon ar adborth y cleifion a sicrhau bod y cleifion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau o ran costau triniaethau.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur eu bod wedi cael cyfarwyddiadau digonol ar ôl eu triniaeth a chanllawiau clir ar yr hyn i'w wneud ac â phwy y dylent gysylltu pe bai ganddynt haint/argyfwng.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd y gwasanaeth yn defnyddio technoleg ddigidol fel adnodd i'w helpu i gyfathrebu'n effeithiol a sicrhau gofal amserol i'r cleifion. Gallai'r cleifion gael gafael ar y gwasanaeth mewn sawl ffordd, gan gynnwys dros y ffôn, yn bersonol ac ar-lein. Cadarnhaodd y staff fod ymgynghoriadau cychwynnol rhithwir yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod y cleifion yn cael canllawiau clir ar sut i ymuno â chyfarfodydd rhithwir. Roedd yn ofynnol i'r cleifion lofnodi dogfennaeth electronig berthnasol cyn cael triniaeth. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol y broses drin a'u bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent yn ei ddymuno mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Dywedwyd wrthym fod cymhorthion ar gael i gynorthwyo unigolion a all fod ag anawsterau cyfathrebu, gan gynnwys doler sain i gleifion ag anawsterau clywed. Dywedodd y staff fod gwasanaethau cyfieithu yn cael eu defnyddio i helpu'r cleifion i ddeall eu gofal a'u triniaeth pe bai angen.

Yn ystod yr arolygiad, dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw staff yn y clinig yn siarad Cymraeg ond y gellid trefnu gwasanaethau cyfieithu a gellid darparu dogfennaeth yn Gymraeg pe bai angen. Fodd bynnag, dywedodd un claf a gwblhaodd ein holiadur wrthym mai Cymraeg oedd ei ddewis iaith ond nad oedd y cyfle i siarad Cymraeg wedi cael ei gynnig yn rhagweithiol. Dywedodd hefyd fod y wybodaeth gofal iechyd a ddarparwyd iddo yn Saesneg, ac nid yn Gymraeg.

Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod yr holl wybodaeth i gleifion ar gael yn hawdd ac yn cael ei darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn. Dylai cleifion gael cynnig y cyfle i siarad yn eu dewis iaith lle bynnag y bo modd.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd y cleifion yn cael cymorth i ddeall eu gofal a'u triniaeth yn ystod eu hymgyngoriadau cychwynnol â'r staff a thrwy gydol y broses drin. Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin o fewn cyfnod priodol a'u bod yn cael gwybodaeth, cyngor a chymorth addas drwyddi draw. Cadarnhaodd y staff fod y clinig yn ceisio trin y cleifion o fewn cyfnod o 12 wythnos o'u cyswllt cychwynnol â'r gwasanaeth i'r

driniaeth. Dywedwyd wrthym y byddai'r gwasanaeth yn cysylltu â'r cleifion ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt pe bai unrhyw oedi.

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym fod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol yn unol â'u hanghenion unigol a chlinigol. Fodd bynnag, nododd un claf a gwblhaodd ein holiadur:

“Pan fyddaf yn trefnu i weld y meddyg, rwyf wedi dod i'r arfer â gorfod aros dros awr am fy apwyntiad. Mae angen gwella hyn gan fod y broses/trefnu o gwmpas y gwaith yn peri llawer o straen.”

Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld ar amser yr apwyntiad a neilltuwyd iddynt er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal amserol ac effeithiol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd polisïau ar waith gan y gwasanaeth er mwyn helpu i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth y cleifion. Roedd cyfraddau cydymffurfio uchel â'r hyfforddiant gorfodol ar Werthoedd a Diwylliant ymhlith y staff.

Roedd addasiadau rhesymol ar waith fel y gallai pawb gael gafael ar wasanaethau a'u defnyddio ar sail gyfartal. Roedd y brif dderbynfa a'r ystafelloedd ymgynghori ar lawr cyntaf yr adeilad, ac roedd yr ystafelloedd trin a'r cyfleusterau labordy ar y llawr gwaelod. Roedd y drysau a'r coridorau ym mhob rhan o'r adeilad yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac roedd lifft ar gael hefyd pe bai angen.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethant ddangos eu bod yn rhoi sylw priodol i gynnal hawliau'r cleifion a dewisiadau unigol. Dywedwyd wrthym fod yr holl ddogfennaeth yn anneauidd a bod y staff yn cyfeirio at y cleifion gan ddefnyddio'r rhagenwau a ffefrir ganddynt. Rhoddodd y staff enghreifftiau o'r ffordd roedd y clinig wedi rhoi triniaeth i gleifion trawsryweddol gan sicrhau bod eu hawliau a'u dewisiadau personol yn cael eu parchu ar yr un pryd.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd y trefniadau ar gyfer ceisio adborth y cleifion ac ymdrin â chwynion wedi'u disgrifio'n glir yn natganiad o ddiben y darparwr cofrestredig. Disgrifiwyd prosesau addas ar gyfer ceisio adborth gan y cleifion cyn iddynt gael triniaeth a thrwy gydol eu proses drin. Roedd adborth y cleifion yn cael ei gasglu bob chwarter ac yn cael ei drafod yn rheolaidd ymhlith y staff a'r uwch-reolwyr er mwyn nodi themâu a thueddiadau ac ysgogi camau i wella ansawdd. Cymerwyd camau cadarn i ymdrin ag unrhyw adborth negyddol gan gleifion a'i uwchgyfeirio, a byddai'r staff yn cynnal trafodaethau pellach â'r claf dan sylw. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar foddhad cleifion. Fodd bynnag, cadarnhaodd y

staff nad oedd system ar waith i hysbysu'r cleifion yn rheolaidd am y camau a gymerwyd o ganlyniad i'r adborth a roddwyd ganddynt, megis bwrdd “dywedoch chi, gwnaethom ni”.

Dylai'r gwasanaeth wella'r broses mewn perthynas ag adborth cleifion drwy gyflwyno system ar gyfer rhoi gwybod i'r cleifion yn rheolaidd am y camau a gymerwyd o ganlyniad i'r adborth a roddwyd.

Roedd y gwasanaeth yn defnyddio system cofnodion electronig Datix ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro pryderon a chwynion. Roedd y system hon yn cynnwys hierarchaeth ar gyfer cofnodi digwyddiadau. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu llunio a'u hadolygu'n rheolaidd fel y gellid nodi a monitro themâu a thueddiadau. Ar adeg ein harolygiad, roedd pedair cwyn agored yn y clinig. Nodwyd gennym fod yr uwch-staff yn ymdrin â'r rhain mewn ffordd addas, gyda chymorth y Rheolwr Ansawdd a'r Gweinyddydd Ansawdd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch []

Gwnaethom edrych ar y prosesau sydd ar waith i reoli ac adolygu risgiau er mwyn helpu i gynnal iechyd a diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr yn y clinig. Roedd rhai mesurau addas ar waith, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Roedd amgylchedd y clinig yn lân ac yn daclus, yn ddigon diogel ac ni welwyd unrhyw beryglon amlwg drwy gydol yr arolygiad.
- Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd ein holiadur yn cytuno bod yr adeilad yn hygyrch
- Roedd amrywiaeth o bolisiau cynhwysfawr a chyfredol ar gael i helpu'r staff i ymgymryd â'u rolau a sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol
- Roedd polisiau, prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risg ac iechyd a diogelwch, a oedd yn ei gwneud yn bosibl i'r staff barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol. Gwelsom enghreifftiau o archwiliadau amrywiol a oedd wedi cael eu cwblhau'n addas o fewn amserlenni penodol
- Roedd yr allanfeydd tân a'r llwybrau dianc wedi'u nodi'n glir. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod system canfod tân a larwm tân, gosodiadau trydanol a boeler y clinig wedi cael eu harchwilio a'u gwasanaethu o fewn amserlenni penodol
- Disgrifiodd y plant brosesau addas ar gyfer trefnu gofal amserol yn yr ysbyty i gleifion pe bai argyfwng
- Roedd y ffigurau hyfforddiant yn dangos bod lefelau uchel o gydymffurfiaeth â hyfforddiant ar Iechyd a Diogelwch a Chynnal Bywyd Brys ymhlith y staff, sef 85 y cant a 100 y cant.

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym fod gan y clinig gyfarpar adfywio addas i'w ddefnyddio pe bai argyfwng. Roedd rhestr wirio ar gyfer y troli adfywio i'r staff ddogfennu pryd cafodd y troli ei wirio er mwyn sicrhau bod y cyfarpar brys ar gael ac yn gyfredol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod sawl bwlch ar restr wirio'r troli adfywio a oedd yn dangos nad oedd y gwiriadau bob amser yn cael eu cwblhau neu eu cofnodi'n gyson gan y staff.

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod gwiriadau'r troli adfywio yn cael eu cynnal a'u cofnodi o fewn amserlenni penodol er mwyn cefnogi diogelwch y cleifion.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd polisi atal a rheoli heintiau cyfredol ar waith yn y clinig er mwyn rhoi arweiniad clir i'r staff. Roedd arweinwyr atal a rheoli heintiau penodedig yn y clinig a gallai pob aelod o'r staff gael gafael ar gyfarpar diogelu personol er mwyn atal achosion o groes-heintio. Nodwyd lefel gydymffurfiaeth gyffredinol o 92 y cant o

ran nifer y staff a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ar Atal a Rheoli Heintiau.

Roedd y clinig yn edrych yn lân ac yn daclus a nodwyd bod amserlenni glanhau addas ar waith i gefnogi diogelwch y cleifion a'r staff. Gwelsom dystiolaeth bod y cyfarpar a ddefnyddir gan y clinig i helpu i ddarparu gofal i gleifion yn addas at y diben. Gwelsom fod gweithdrefnau ar waith ar gyfer glanhau a dihalogi'r amgylchedd a'r cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio. Roedd trefniadau golchi dillad y clinig yn cefnogi prosesau atal a rheoli heintiau effeithiol a gwelsom fod systemau da ar waith i waredu gwastraff clinigol fel y bo'n briodol.

Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi bod rhai rhannau o'r clinig yn atal prosesau atal a rheoli heintiau effeithiol, neu nad oeddent yn eu cefnogi, a'u bod felly'n peri risg bosibl i ddiogelwch y staff a'r cleifion. Nodwyd y materion canlynol gennym:

- Roedd llawer o graciau yn nheils llawr cegin y staff ar y llawr gwaelod
- Gwelsom enghreifftiau o ddodrefn, gan gynnwys cadeiriau wedi'u clustogi yn ardaloedd y staff, â defnydd a oedd wedi rhwygo neu wedi treulio
- Roedd angen cynnal a chadw ac atgyweirio rhai rhannau o'r amgylchedd; gwelsom fod craciau yn waliau'r ystafelloedd adfer a bod angen ailbaentio rhai manau
- Roedd llawer o finiau ym mhob rhan o'r clinig nad oeddent yn rhai y gellir eu gweithredu â throed, ac nid oedd caeadau ar rai ohonynt.

Cawsom gopïau o adroddiadau archwilio atal a rheoli heintiau diweddar a gynhaliwyd ym mhob rhan o'r clinig. Nodwyd gennym fod rhai o'r materion hyn wedi cael eu nodi mewn archwiliadau atal a rheoli heintiau blaenorol ond roeddent i'w gweld yn ystod ein harolygiad o hyd. Ni allai'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad ddarparu tystiolaeth ddogfennol o drafodaethau na chymau lliniaru a gymerwyd mewn perthynas â'r materion hyn a nodwyd. Felly, ni chawsom sicrwydd bod y trefniadau llywodraethu yn sicrhau bod risgiau a nodwyd yn cael eu lliniaru a'u monitro'n effeithiol er mwyn eu hatal rhag digwydd eto ac ysgogi camau i wella ansawdd.

Rhaid i'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Ymdrin â'r materion a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a'r amgylchedd
- Cynnal archwiliad amgylcheddol llawn o'r clinig er mwyn nodi, cofnodi ac ymdrin ag unrhyw risgiau ychwanegol
- Rhoi trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i sicrhau yr ymdrinnir yn effeithiol â risgiau a nodir a materion parhaus a'u bod yn cael eu monitro er mwyn cefnogi diogelwch y staff a'r cleifion.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau cadarn ar waith i reoli meddyginiaethau'n ddiogel. Roedd polisi rheoli meddyginiaethau cyfredol ar waith er mwyn rhoi arweiniad clir i'r staff. Roedd pob aelod perthnasol o'r staff yn cydymffurfio'n llawn â'u hyfforddiant gorfodol ar reoli meddyginiaethau.

Gwelsom fod systemau archwilio mewnol priodol ar waith er mwyn helpu i roi meddyginiaethau yn ddiogel. Roedd meddyginiaethau'r cleifion yn cael eu storio'n ddiogel ac yn briodol mewn cypyrddau dan glo neu yn yr oergell feddyginiaeth yn y clinig fel y bo'n briodol. Roedd trefniadau ar waith i wirio tymheredd yr oergell feddyginiaeth bob dydd er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gwneuthurwr. Fodd bynnag, gwnaethom nodi un bwlch ar y rhestr wirio a oedd yn dangos nad oedd y gwiriadau bob amser yn cael eu cwblhau'n gyson.

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod rhestr wirio'r oergell feddyginiaeth yn cael ei chwblhau'n gyson er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion.

Roedd cofnodion meddyginiaeth y cleifion a welsom yn cael eu cynnal i safon dda ac roeddent yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Roedd y cofnodion yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan oedd meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi, ac roedd rheswm yn cael ei gofnodi pan nad oedd meddyginiaeth yn cael ei rhoi. Roedd y cofnodion yn dangos bod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi'n briodol yn unol ag anghenion y cleifion.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y clinig yn diogelu oedolion a phlant, a bod achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn. Roedd polisiâu diogelu cynhwysfawr a chyfredol ar waith. Roedd strwythur rheoli'r clinig yn cynnwys arweinydd diogelu penodol a oedd yn cael ei gefnogi gan y Tîm Llywodraethu a Chydymffurfio corfforaethol er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau'r clinig o ran diogelu yn cael eu cyflawni. Cawsom ffigurau ar hyfforddiant a nodwyd lefel gydymffurfiaeth gyffredinol o 82 y cant o ran nifer y staff a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu.

Dywedwyd wrthym fod pob pryder yn ymwneud â diogelu yn cael ei gofnodi yn system Datix a'i oruchwylio gan uwch-aelodau o'r staff. Pan gynhaliwyd ein harolygiad, nid oedd unrhyw bryderon diogelu agored, a chawsom sicrwydd o'n trafodaethau â'r staff eu bod yn deall gweithdrefnau a threfniadau adrodd y clinig o ran diogelu yn llawn.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd amrywiaeth o gyfarpar addas ar gael yn y clinig er mwyn hwyluso'r broses o ddarparu gofal a thriniaethau i'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth bod cyfarpar sganio uwchsain y clinig yn addas at y diben a'i fod yn cael ei wasanaethu bob blwyddyn, fel y bo'n briodol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Nodwyd bod prosesau addas ar waith er mwyn helpu i roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd strwythur llywodraethu sefydledig ar waith i oruchwylio materion clinigol a gweithredol. Cadarnhaodd y staff fod y trefniadau llywodraethu yn cynnwys gweithgareddau a chyfarfodydd i drafod digwyddiadau, canfyddiadau a materion sy'n gysylltiedig â gofal cleifion a oedd yn helpu'r clinig i wella ac i rannu'r gwersi a ddysgwyd o ddiwyddiadau. Gwelsom dystiolaeth gref o gydweithredu amlddisgyblaethol rhwng y staff nyrsio, meddygol a'r labordy er mwyn cefnogi gofal cleifion.

Roedd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn y system cofnodion electronig yn cael eu cynnal i safon dda ac yn cynnig cofnod cyfoes o'r rhyngweithio â'r cleifion. Roedd y cofnodion yn cynnwys manylion am y clinigydd a oedd yn creu'r cofnod, ynghyd â digon o fanylion am y driniaeth a ddarparwyd i bob claf a chynlluniau gofal dilynol. Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth glir am eu hopsiynau triniaeth a rheoli er mwyn iddynt allu deall y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu. Roedd y cofnodion yn casglu gwybodaeth fanwl a pherthnasol mewn ffordd addas, gan gynnwys cydsyniad dilys, hanes meddygol cleifion a'r asesiadau risg a gynhaliwyd cyn cynnal triniaethau llawfeddygol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd yn amlwg o'n trafodaethau â'r staff fod yr uwch-reolwyr yn adolygu'r ffordd y darperir y gwasanaeth gyda'r nod o wella gofal cleifion. Roedd cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn adolygu safon y gofal a'r triniaethau a nodi a ellid gwneud gwelliannau.

Disgrifiodd y person cofrestredig broses ar gyfer coladu ac adolygu adborth gan gleifion fel rhan o'r system ar gyfer sicrhau ansawdd a gwella ansawdd. Cawsom enghreifftiau o adborth gan gleifion a oedd yn dangos y broses hon ar waith.

Roedd gweithgareddau archwilio a systemau a phrosesau monitro ar waith er mwyn sicrhau bod y clinig yn canolbwyntio ar gynnal ei safonau yn barhaus. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn, rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod materion a gaiff eu nodi yn ystod archwiliadau o'r clinig yn cael eu lliniaru a'u monitro mewn ffordd gadarn.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Nodwyd gennym fod trefniadau llywodraethu gwybodaeth priodol ar waith a dangosodd y staff ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd. Gwelsom fod y gyfradd gydymffurfio ymhlith y staff ar gyfer hyfforddiant gorfodol ar Ddiogelwch Data ac Ymwybyddiaeth yn uchel, sef 92 y cant.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion pob claf yn cael eu cynnal yn electronig, a gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y cofnodion hyn yn ddiogel. Roedd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn glir ac yn drefnus iawn. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi achosion lle roedd sganiau uwchsain cleifion yn cael eu hargraffu â llaw ac yna eu sganio er mwyn eu hychwanegu at eu cofnod iechyd electronig, yn hytrach na'u lanlwytho'n uniongyrchol. O ganlyniad i hyn, roedd risg bosibl y gallai sganiau'r cleifion gael eu hatodi'n anghywir neu gael eu priodoli i'r person anghywir yn y system.

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod sganiau cleifion yn cael eu lanlwytho'n uniongyrchol i'w cofnodion er mwyn atal y risg o wallau wrth gadw cofnodion ac i gefnogi diogelwch y cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Nodwyd bod strwythur rheoli addas â llinellau adrodd ac atebolrwydd clir ar waith. Roedd y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol yn gweithio yn y clinig ac ar gael i gefnogi'r staff ac i fonitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Roedd y tîm amlddisgyblaethol wedi hen ymsefydlu a gwelsom fod pawb yn cydweithio'n dda â'i gilydd drwy gydol yr arolygiad.

Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Gwnaethom nodi bod prosesau rheolaidd mewn cyfarfodydd staff er mwyn casglu adborth y staff a gweithredu ar unrhyw faterion a godir. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad o'i berfformiad gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf.

Pan gynhaliwyd ein harolygiad, roedd y gwasanaeth yn mynd drwy gyfnod o drawsnewid gan ei fod yn symud i berchnogaeth Care Fertility Group Limited (CARE). Cawsom wybod bod y gwasanaeth yn y broses o addasu i'r perchennog newydd a'i brosesau, gan gynnwys cyflwyno polisiau CARE a chysiau hyfforddiant i'r staff. Fodd bynnag, dywedodd y staff eu bod yn cael problemau technegol wrth geisio cael mynediad at system electronig CARE a'i defnyddio. Felly, ni allai'r staff ddarparu rhai o'r dogfennau a'r wybodaeth y gwnaethom ofyn am gael eu/ei gweld yn ystod yr arolygiad, ond cawsom gopïau o'r rhain ar ôl yr arolygiad. Gwnaethom fynegi ein pryderon i'r staff a dweud bod y problemau technegol parhaus gyda'r system yn peri risgiau posibl o ran llywodraethu a goruchwyllo prosesau'r clinig a pherfformiad y staff a bod yn rhaid mynd i'r afael â hyn ar fyrder.

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod problemau technegol system CARE yn cael eu datrys yn llawn a bod y staff yn gallu cael mynediad i'r system a'i defnyddio.

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod dogfennaeth a gwybodaeth berthnasol sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau ar gael yn hawdd i'r staff.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd manylion am y ffordd y gallai cleifion wneud cwyn wedi'u cynnwys yn y datganiad o ddiben, ar y wefan ac ar ffurf taflen. Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar gael hefyd. Roedd y rhain yn nodi'r amserlenni ar gyfer cydnabod cwynion ac ymateb iddynt yn glir.

Gwelsom brosesau priodol ar gyfer cofnodi digwyddiadau a chwynion, ymchwilio iddynt a'u monitro er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi camau i wella ansawdd. Roedd gweithgareddau archwilio a chyfarfodydd rheolaidd yn cael eu

cynnal i drafod digwyddiadau, cwynion a materion sy'n ymwneud â gofal cleifion. Dywedwyd wrthym fod unrhyw risgiau a phryderon yn cael eu codi gydag arweinwyr yr adrannau perthnasol, a fyddai'n ymchwilio i'r mater ac yn adrodd ar eu canfyddiadau fel y bo'n briodol. Nodwyd gennym fod digwyddiadau, cwynion a phryderon diogelu yn cael eu hadolygu fel mater o drefn, a bod unrhyw wersi i'w dysgu yn cael eu rhannu â phob aelod o'r staff.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi bod y lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau yn ddigonol er mwyn cefnogi diogelwch y cleifion a darparu'r gwasanaethau a gynnigir yn y clinig. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw swyddi gwag ar gyfer staff nyrsio ar hyn o bryd.

Disgrifiodd y staff brosesau recriwtio a gwiriadau cyn cyflogi'r gwasanaeth. Dywedwyd wrthym fod proses briodol ar waith ar gyfer recriwtio, dethol a phenodi staff. Cyn cyflogi, roedd gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cwblhau a oedd yn cynnwys gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dywedwyd wrthym fod cofnodion cyflogaeth y staff yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio yn y clinig.

Yn ystod yr arolygiad, cawsom wybod bod ffeiliau'r staff yn cael eu cadw oddi ar y safle ac nad oeddent ar gael i'w hadolygu ar adeg ein harolygiad. Cawsom sampl o ffeiliau recriwtio dau aelod o'r staff ar ôl yr arolygiad. Gwelsom fod ffeiliau'r staff yn cynnwys disgrifiad swydd cyfredol a chontractau cyflogaeth manwl. Dywedwyd wrthym mai'r adran Adnoddau Dynol gorfforaethol sy'n rheoli'r prosesau sefydlu ar gyfer pob aelod o'r staff a bod systemau priodol ar waith i sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael eu himiwneiddio cyn dechrau gweithio yn y clinig. Cadarnhaodd y staff fod systemau ar waith i roi gwybod i'r staff pan oedd eu rhif adnabod gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar fin dod i ben.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Yn gyffredinol, y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant. Dywedwyd wrthym fod rhaglen hyfforddiant gorfodol newydd i'r staff wedi cael ei chyflwyno gan CARE yn ddiweddar a bod systemau ar waith i staff goruchwylio fonitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol. Dangosodd yr uwch-aelodau o'r staff eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran monitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant a gwnaethant gadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi'i gofrestru ar gyfer yr hyfforddiant gorfodol gofynnol. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth yn bwriadu sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio'n llawn â'u hyfforddiant gorfodol erbyn diwedd mis Medi 2024.

Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, dywedodd y staff wrthym na allent gael gafael ar y matrices hyfforddiant oherwydd problemau technegol parhaus gyda system CARE. Felly, ni chawsom ffigurau ar gydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant yn ystod yr arolygiad. Gwnaethom drafod y mater hwn â'r staff a chawsom ddata ar gydymffurfiaeth â hyfforddiant yn ddiweddarach a oedd yn nodi bod lefelau cydymffurfiaeth y staff â sawl cwrs hyfforddiant gorfodol yn isel. Yn dilyn trafodaethau pellach â'r staff, canfuwyd bod y wybodaeth a roddwyd i AGIC yn anghywir, oherwydd y gwallau technegol yn y system newydd.

Er mwyn coladu'r data cyffredinol ar gydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant, aeth y staff ati i goladu a dehongli cofnodion cydymffurfiaeth â hyfforddiant aelodau unigol o'r staff â llaw mewn taenlen. Roedd hon yn dasg lafurus a chymerodd lawer o amser. Pan ddarparwyd y daenlen hon i AGIC, gwelsom fod lefelau cydymffurfiaeth y staff â chysiau hyfforddiant gorfodol yn dda ar y cyfan. Cawsom ein sicrhau bod y problemau technegol gyda system CARE wedi cael eu cofnodi ac y byddai cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant yn cael eu monitro â llaw nes y byddai'r problemau'n cael eu datrys. Fodd bynnag, gwnaethom fynegi ein pryderon i'r staff, gan nodi bod yn rhaid i system CARE fod yn hygyrch er mwyn sicrhau y gellir cael gafael ar ddata cywir ar gydymffurfiaeth â hyfforddiant, ac er mwyn gallu llywodraethu a goruchwyllo hyfforddiant gorfodol y staff yn effeithiol.

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y gellir cael gafael ar ddata cywir ar gydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant a'u hadolygu er mwyn cefnogi prosesau parhaus i fonitro a goruchwyllo trefniadau llywodraethu.

Dywedwyd wrthym fod uwch-aelodau o'r staff a Thîm Datblygu Dysgu penodol y gwasanaeth yn adolygu hyfforddiant a chymwysterau aelodau presennol o'r staff yn rheolaidd, gyda'r nod o ddatblygu ac uwchsgilio'r staff. Cadarnhaodd y staff fod y gwasanaeth yn cefnogi Datblygiad Proffesiynol Parhaus pob aelod o'r staff drwy ddarparu hyfforddiant ychwanegol sy'n gysylltiedig â'u rolau, gan gynnwys cyrsiau sganio uwchsain a chysiau rhagnodi.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw welliannau yr oedd angen eu gwneud ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Canolfan Atgenneddu a Gynaecoleg Cymru, Llantrisant

Dyddiad yr arolygiad: 13 Awst 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw welliannau yr oedd angen eu gwneud ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Atgenhedlu a Gynaecoleg Cymru, Llantrisant

Dyddiad yr arolygiad: 13 Awst 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Dywedodd un claf wrthym mai Cymraeg oedd ei ddewis iaith ond nad oedd wedi cael cynnig rhagweithiol i siarad Cymraeg ac nad oedd y wybodaeth am ofal iechyd a ddarparwyd ar gael yn Gymraeg.	Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod yr holl wybodaeth i gleifion ar gael yn hawdd ac yn cael ei darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn. Dylai cleifion gael cynnig y cyfle i siarad yn eu dewis iaith lle bynnag y bo modd.	Cyfathrebu'n effeithiol	Mae'n anffodus bod hyn wedi digwydd. Rydym yn gofyn yn benodol i gleifion roi gwybod i ni am unrhyw anghenion cyfathrebu yn ein llythyr cyn apwyntiad. Yn anffodus, nid oes gennym unrhyw staff sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r tîm recriwtio wedi cael gwybod y dylid annog siaradwyr Cymraeg i	Ben Davies - Gweinyddydd Llywodraethu a Chydymffurfiaeth ac Ann-Louise Lane - Rheolwr Cofrestredig	31 Ionawr 2025

				wneud cais am rolau sydd ar gael. Rydym hefyd yn adolygu ein pecyn dogfennaeth gychwynnol, a lle y bo'n briodol ac yn bosibl, byddwn yn ceisio ei ddarparu yn Gymraeg.		
2.	Dyweddodd un claf wrthym ei fod wedi dod i'r arfer â gorfod aros dros awr am ei apwyntiad pan fydd wedi trefnu gweld y meddyg a bod hyn yn peri straen.	Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld ar amser yr apwyntiad a neilltuwyd iddynt er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal amserol ac effeithiol.	Cynllunio a darparu gofal	Mae'n ddrwg gennym glywed mai dyma oedd profiad un o'n cleifion. Rydym wedi siarad â'r tîm clinigol ac wedi ategu pa mor bwysig yw cynnal apwyntiadau mewn modd amserol. Caiff ein cleifion eu hannog i roi adborth yn ystod eu hamser gyda Care Fertility Cardiff. Mewn ymateb i'r adborth hwn, byddwn yn dadansoddi'r tueddiadau sy'n codi yn ein hadborth er	Y Tîm Meddygol dan oruchwyliaeth y Cyfarwyddwr - Amanda O'Leary a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chydymffurfiaeth - Debra Bloor	Mae ymarfer parhaus eisoes ar waith ac felly, cymerwyd camau uniongyrchol yn hyn o beth.

				mwyn gweld a oes problem systematig o ran amseroedd aros y mae angen mynd i'r afael â hi.		
3.	Nid oedd system ar waith i hysbysu'r cleifion yn rheolaidd am y camau a gymerwyd o ganlyniad i'r adborth a roddwyd ganddynt.	Dylai'r gwasanaeth wella'r broses mewn perthynas ag adborth cleifion drwy gyflwyno system ar gyfer rhoi gwybod i'r cleifion yn rheolaidd am y camau a gymerwyd o ganlyniad i'r adborth a roddwyd.	Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth	Caiff bwrdd cyfathrebu ("dywedoch chi, gwnaethom ni") ei osod yn y dderbynfa er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion pa gamau sydd wedi'u cymryd yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd.	Arweinydd gwasanaethau cleifion - Donna dan oruchwyliaeth y Rheolwr Cofrestredig - Ann-Louise Lane	30 Tachwedd 2024
4.	Gwelsom fod sawl bwlch yn rhestr wirio'r troli adfywio.	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod gwiriadau'r troli adfywio yn cael eu cynnal a'u cofnodi o fewn amserlenni penodol er mwyn cefnogi diogelwch y cleifion.	Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Rydym yn cydnabod canfyddiadau'r adroddiad a byddwn yn sicrhau bod y gwiriadau'n cael eu cwblhau fel arfer ddyddiol reolaidd. Mae'r rhestr wirio wedi cael ei haddasu, ac mae hefyd yn rhan o amserlen ddyddiol reolaidd y tîm nyrsio.	Arweinydd Nyrsio - Natasha Witchell	Rhoddyd y cam gweithredu ar waith yn syth

				Caiff archwiliadau eu cwblhau er mwyn sicrhau bod y newidiadau wedi bod yn effeithiol. Lle na fydd gweithgarwch yn ymwneud â chleifion, bydd y rhestr wirio yn nodi hynny'n glir o hyn ymlaen. Er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn a rhoi sicrwydd, mae'r prosesau rydym yn eu dilyn mewn perthynas â gwirio'r cyfarpar adfywio yn ceisio cydymffurfio â'r canllawiau a ddarparwyd gan fframwaith safonau iechyd a gofal Cymru, a safon 2.1 yn benodol.		
5.	Roedd rhai rhannau o'r clinig yn atal prosesau atal a rheoli heintiau	Rhaid i'r gwasanaeth wneud y canlynol:	Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Rydym yn gwerthfawrogi ac yn cydnabod y pryderon	Ann-Louise Lane - Rheolwr Cofrestredig	Ionawr 2025

<p>effeithiol, neu nid oeddent yn eu cefnogi, ac yn peri risg bosibl i ddiogelwch y staff a'r cleifion. Roedd rhai o'r materion hyn wedi cael eu nodi mewn archwiliadau atal a rheoli heintiau blaenorol ond roeddent i'w gweld yn ystod ein harolygiad o hyd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ymdrin â'r materion a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a'r amgylchedd • Cynnal archwiliad amgylcheddol llawn o'r clinig er mwyn nodi, cofnodi ac ymdrin ag unrhyw risgiau ychwanegol • Rhoi trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i sicrhau yr ymdrinnir yn effeithiol â risgiau a nodir a materion parhaus a'u bod yn cael eu monitro er mwyn cefnogi diogelwch y staff a'r cleifion. 		<p>hyn a godwyd gan AGIC ynglŷn ag atal a rheoli heintiau. Mae archwiliad amgylcheddol wedi cael ei gynnal mewn ymateb i hyn a byddwn yn cywiro'r meysydd hyn o ddiffyg cydymffurfiaeth. Caiff yr archwiliad hwn ei ychwanegu at ein llwyfan Datix er mwyn gweithredu. Fel clinig, rydym yn blaenoriaethu diogelwch ein cleifion a'r deunydd genetig rydym yn ei storio. Felly, bydd yn rhaid i ni aros nes bod y clinig ar gau dros y Nadolig cyn gwneud gwaith adeiladu. Bydd hyn yn sicrhau bod y gwaith yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion ac yn peri cyn</p>		
--	--	--	--	--	--

				<p>lleied â phosibl o risg iddynt.</p> <p>Credwn fod hyn yn dderbyniol oherwydd, yn unol â'r nodiadau ar gyfer Adeiladau Iechyd a ddarparwyd gan y GIG, ardaloedd anghlinigol yw'r rhain ac rydym o'r farn nad ydynt yn peri risg barhaus nac uniongyrchol i'r cleifion.</p>		
6.	<p>Gwnaethom nodi un bwlch ar restr wirio'r oergell feddyginiaeth a oedd yn dangos nad oedd y gwiriadau bob amser yn cael eu cwblhau'n gyson.</p>	<p>Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod rhestr wirio'r oergell feddyginiaeth yn cael ei chwblhau'n gyson er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion.</p>	<p>Rheoli meddyginiaethau</p>	<p>Mae tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei gofnodi'n electronig. Mae hyn yn hysbysu system ar alwad pan fydd y tymheredd y tu hwnt i'r lefelau derbyniol. Ceir larwm rhybudd hefyd cyn i'r oergell gyrraedd y tymheredd anghywir er mwyn rhoi gwybod i'r tîm fel</p>	<p>Arweinydd Nyrzio - Natasha Witchell</p>	<p>Rhodddwyd y cam gweithredu ar waith yn syth</p>

				<p>y gellir cymryd camau priodol. Mae hyn yn rhan o gyfrifoldebau'r tîm nyrsio.</p> <p>Ymddiheurwn nad oedd hyn wedi'i nodi na'i adlewyrchu'n gywir yn y rhestr wirio tymheredd papur a oedd ar yr oergell ar adeg yr arolygiad. Mae'r rhestr wirio papur wedi cael ei symud oddi ar yr oergell er mwyn osgoi ymddygiadau diangen.</p>		
7.	<p>Gwnaethom nodi achosion lle roedd sganiau uwchsain cleifion yn cael eu hargraffu â llaw ac yna eu sganio er mwyn eu hychwanegu at eu cofnod iechyd electronig, yn hytrach na'u lanlwytho'n uniongyrchol. O</p>	<p>Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod sganiau cleifion yn cael eu lanlwytho'n uniongyrchol i'w cofnodion er mwyn atal y risg o wallau wrth gadw cofnodion ac i gefnogi diogelwch y cleifion.</p>	Rheoli cofnodion	<p>Mae meddalwedd newydd wedi cael ei gosod sy'n caniatáu i ddelweddau angenrheidiol o sganiau gael eu lanlwytho i gofnod y claf yn electronig. Credwn yn gryf y bydd hyn yn lleihau'r risg a achosir gan y system</p>	<p>Arweinydd Nyrsio - Natasha Witchell a'r Adran TG dan oruchwyliaeth y Rheolwr TG - Andrew Kenah a Phennaeth TG y Grŵp - Anthony Mazzara</p>	31 Rhagfyr 2024

	ganlyniad i hyn, roedd risg bosibl y gallai sganiau'r cleifion gael eu hatodi'n anghywir neu gael eu priodoli i'r person anghywir yn y system.			sganio bresennol. Caiff delweddau o sganiau eu hargraffu ar gais cleifion neu os bydd aelod o'r tîm clinigol neu'r tîm nyrsio yn gofyn amdanynt, fel y bo'n briodol.		
8.	Roedd y problemau technegol parhaus gyda system CARE yn peri risgiau posibl o ran llywodraethu a goruchwylio prosesau'r clinig a pherfformiad y staff.	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod problemau technegol system CARE yn cael eu datrys yn llawn a bod y staff yn gallu cael mynediad i'r system a'i defnyddio. Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod dogfennaeth a gwybodaeth berthnasol sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau ar gael yn hawdd i'r staff.	Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd	Cafwyd rhai problemau wrth integreiddio systemau Care. Mae'r gwallau technegol a nodwyd ar y diwrnod wedi cael eu cywiro ac ni fyddant yn digwydd eto.	Pennaeth TG - Anthony Mazzara	31 Rhagfyr 2024
9.	Ni allai'r staff goladu data ar gydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y gellir cael gfael ar ddata cywir ar gydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant a'u hadolygu	Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	Ymddiheurwn nad oedd y data hyn ar gael yn hawdd ac rydym wedi datrys y broblem. Gellir	Arweinydd Dysgu a Datblygu - Zoe Flitter a'r Uwchdîm Rheoli lleol dan	30 Medi 2024

gorfodol yn ystod yr arolygiad.	er mwyn cefnogi prosesau parhaus i fonitro a goruchwyllo trefniadau llywodraethu.		bellach gael gafael ar y wybodaeth am hyfforddiant gorfodol.	oruchwyliaeth Ann-Louise Lane - Rheolwr Cofrestredig	
---------------------------------	---	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Ann-Louise Lane
Teitl swydd: Cyfarwyddwr y Clinig
Dyddiad: 11 Tachwedd 2024